



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAF 2013

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn::

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu. Bydd yr adroddiad hwn i'w weld yn y lleoliad canlynol:

<http://www.wjec.co.uk/index.php?nav=51>

LLENYDDIAETH GYMRAEG

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2013

Prif Arholwr: Manon Jones Maddock B.A.

Prif Safonwr: Tudur Dylan Jones B.A.

Diolch i holl athrawon adrannau Cymraeg am baratoi'r ymgeiswyr yn drylwyr ar gyfer sefyll yr arholiad hwn. Mae astudio Llenyddiaeth Gymraeg yn brofiad gwerthfawr a gwelir ymgeiswyr yn cael budd mawr o drafod llenyddiaeth ar draws yr ystod gallu. Roedd gweiniaid yr haen sylfaenol wedi cael pleser yn ymateb i gerddi a mwynhau darllen nofel.

Yn gyffredinol, gwelwyd atebion trefnus a dyfynnu pwrpasol ar draws y ddwy haen. Un pwynt a berodd ofid i sawl arholwr oedd gweld ambell ganolfan wedi annog yr ymgeiswyr i ddysgu cerddi cyfan ar eu cof a nifer yn ysgrifennu'r gerdd gyfan ar y papur arholiad ac yna bwrw ati i'w thrafod. Gwelwyd enghreifftiau o hyn yn digwydd ar y ddwy haen. Pwysleisir mai dyfynnu i ategu pwyntiau wrth drafod cynnwys ac arddull y dylid ei wneud ac nid dysgu cerddi cyfan ar eu cof.

Haen Sylfaenol – Barddoniaeth

Calonogol oedd gweld bod yr ymgeiswyr wedi ceisio ateb ar y ddwy adran. Ni chafwyd fawr ddim papurau gwag.

Roedd gwaith y goreuon a atebodd y cwestiwn ar 'Y Môr' yn dda iawn ac roedd yr atebion yn ganmoladwy. Roedd y goreuon yn gallu dyfynnu'n bwrpasol, rhai yn helaeth a'u plethu'n effeithiol a naturiol i'w hateb. Ond roedd rhai wedi nodi mai Bryan Martin Davies oedd y bardd ac ambell un wedi drysu'r gerdd gyda chynnwys 'Glas'.

Gallai'r mwyafrif adnabod nodweddion arddull a nodi rheswm teilwng i gyfiawnhau'r effaith. Roedd personoli, brawddeg fer a chyferbyniad yn nodweddion poblogaidd wrth drafod 'Y Môr', ond aeth rhai i drafferthion wrth geisio egluro cyflythreniad "lluosogi'n y lli." Nododd rhai "Ac yna fe ddaeth yr olew" fel chyferbyniad, oedd yn gywir wrth gwrs, ond wedi mynd i ddyfroedd dyfnion wrth geisio esbonio'r effaith. Roedd y rhai a nododd "Bywyd, tarddle'r dechreuad" a "Marwolaeth y môr" wedi ei chael yn haws i egluro effaith y chyferbyniad, ac felly'n ennill marciau'n haws. Roedd y frawddeg stoc "Ilun yn fy mhen/meddwl" yn parhau i ymddangos a heb gyfeirio at yr hyn sy'n cael ei gyfleu gan y bardd.

Wrth ymateb i gwestiwn (ch) - ydy'r thema hon yn bwysig i bobl ifanc heddiw, gwahaniaethwyd rhwng y goreuon a'r gweddill. Byddai'r goreuon yn trafod yn aeddfed a da o beth fyddai atgoffa'r ymgeiswyr i ddyfynnu wrth ateb y cwestiwn hwn. Llwyddodd y mwyafrif i wneud sylw syml am addasrwydd y cerddi ac roedd bron pawb wedi cofio mai'r 'Llwynog' oedd yr ail gerdd yn y thema. Prin oedd y rhai oedd yn gallu dadansoddi pam eu bod yn addas i'w cenhedlaeth hwy.

Trafododd nifer o ddisgyblion 'Glas' yng nghwestiwn 2, gwelwyd enghreifftiau prin yn dewis 'Delyth fy merch yn ddeunaw oed' o dan y thema *leuenctid*. Gwall cyffredin mewn sawl canolfan eleni oedd dewis 'Gail Fu Farw' o dan y thema *leuenctid*. Roedd tueddiad gan nifer o'r disgyblion i ddrysu rhwng cynnwys 'Colli laith' ac '11.12.82' gan golli marciau. Roedd trafod 'Colli laith' yn dda iawn, ond yna roedd cyfeiriadau at floedd y baban yn digwydd wrth sôn am y pennill clo. Yn yr un modd gwelwyd sôn am fodd Tryweryn wrth sôn am '11.12.82'. Unwaith eto eleni, wrth drafod '11.12.82' mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar hanes lladd Llywelyn yn hytrach na sôn am gynnwys y gerdd ei hun.

O ran trafod arddull, 'Glas' oedd y gerdd y gwelwyd yr atebion gorau arni. Roedd y cyfeiriadau at bersonoli, trosiad, cyferbyniad ac ansoddeiriau yn dda iawn, ac roedd atebion y goreuon yn well o lawer nag a welwyd gan rai ymgeiswyr yr haen uwch.

Haen Sylfaenol – Nofel

Astudwyd *Llinyn Trôns* gan y mwyafrif helaeth. Prin iawn oedd y canolfannau a ddewisodd *Bachgen yn y Môr*. O ran nofelau pontio, roedd *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* yn fwy poblogaidd nag *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* Yn ôl un arholwr "Roedd bodddhad yn cael ei amlygu yn rhai sgriptiau gyda rhai yn dangos hiwmor iach!" wrth drafod *Llinyn Trôns*. Roedd y rhan fwyaf yn ennill marciau yn y cwestiynau cynhesu ar ddechrau Adran B - gan gofio beth oedd wedi digwydd yn y nofelau.

Gwelwyd ambell ymgeisydd wedi drysu wrth ateb (c) ac (ch) - pa gymeriadau oedd yn gwneud beth e.e. *Llinyn Trôns* - Gags yn taflu'r papur Mars i'r llawr, Gags yn cael trafferth i lywio'i ganw. *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* – gormod o adrodd hanes Richard Jones yn cynllunio torri i mewn i'r sied yn hytrach na chanolbwyntio ar y dianc ar y diwedd.

Erbyn hyn mae'r cwestiwn arddull wedi ennill ei blwyf, a nifer yn gallu enwi'r nodweddion yn ogystal â thrafod yr effaith. Gwelwyd y gweiniaid yn ei chael yn anodd chwilio am enghraifft arall o nodwedd arddull, ond y goreuon yn cyflawni'r dasg yn dda.

Gwelwyd hefyd i ffurf llythyr beri trafferthion i rai ymgeiswyr, anghofio cynnwys cyfeiriad / dyddiad neu Annwyl... a 'cofion' ar ddiwedd y gwaith. Dylid hefyd nodi bod y cwestiwn hwn bellach yn ffocysu ar ddigwyddiad penodol yn y nofel. Roedd nifer wedi mynd ati i sôn am ddigwyddiadau ar ddiwedd y nofelau yn hytrach na chanolbwyntio ar y canwio yn *Llinyn Trôns* er enghraifft. Nid oedd angen sôn am farwolaeth Gags.

Barddoniaeth – Haen Uwch

Cafwyd atebion ardderchog ar y gerdd 'Cydwylbod'. Dyma gywydd heriol a fu ar un adeg ar fanyleb Safon Uwch. Mae'n amlwg mai'r goreuon a ddewisodd ateb y cwestiwn cyntaf ar y papur, roeddent yn dyfynnu'n bwrpasol ac yn dadansoddi'n aeddfed a threiddgar. Braff oedd gweld traethodau wedi eu saernio ar gynnwys y gerdd hon. Gwelwyd ambell enghraifft o gamddechongli "Dyma lef Sarajevo" wrth i ymgeiswyr gyfeirio at wreiddiau'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn hytrach na'r rhyfel oedd yn digwydd yn yr hen Iwgoslafia pan ysgrifennodd Meirion MacInyre Huws y gerdd.

Dewisodd y mwyafrif ateb ar yr ail gwestiwn ac mae'r sylwadau yn debyg iawn i rai'r haen sylfaenol - dewis ateb ar 'Gail Fu Farw' wrth ddewis cerdd o thema *leuenctid* a chymysgu cynnwys '11.12.82', 'Colli laith' ac 'Etifeddiaeth'. Roedd sôn am waedd y baban yn gyffredin yn 'Etifeddiaeth' a dyfynnu "gwymon o ddynion" yn ymddangos wrth drafod cynnwys '11.12.82' a 'Colli laith'.

O ystyried mai haen uwch yw'r arholiad gwelwyd gormod o atebion byr, arwynebol heb ddigon o ddyfynnu.

Roedd atebion arddull ar y cerddi yn dda iawn. Roedd ôl hyfforddiant wrth i'r ymgeiswyr ateb yn gywir a manwl. Mae'n bwysig sicrhau bod canolfannau yn hyfforddi'r disgyblion ar yr haen uwch i drafod y gynghanedd yn hytrach na chyflythreniad wrth drafod cerddi caeth.

Cafwyd atebion gwych gan y goreuon wrth drafod tair cerdd oedd wedi pigo eu cydwybod - yn amlwg dewiswyd 'Gail Fu Farw' a 'Tŷ'r Ysgol' fel cerddi oedd wedi pigo eu cydwybod ac roedd 'Y Coed', 'Y Môr' hefyd yn gerddi poblogaidd. Roedd ganddyn nhw ddigon o resymau i gyfiawnhau eu dewis ond roedd y gweiniaid yn ei chael yn anodd cyfiawnhau eu dewis gan greu crynodeb o gynnwys y cerddi yn hytrach na thrafod y thema 'Pigo Cydwybod'.

Roedd yr un peth yn wir wrth geisio cyfiawnhau'r thema oedd wedi rhoi'r boddhad mwyaf iddynt. Rhestru holl gynnwys y cerddi wnaeth y rhan fwyaf, mewn gormod o fanylder. Roedd safon yr iaith yn y cwestiwn hwn yn wannach o gymharu ag atebion (b), (c).

Nofel – Haen Uwch

I Ble'r Aeth Haul y Bore? yn ddi-os oedd y nofel fwyaf poblogaidd ar yr haen uwch gyda nifer fawr o ganolfannau yn ei dewis ar gyfer yr holl ystod gallu. Dywedodd un arholwr "Cafwyd tystiolaeth eto fod *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* yn apelio at rai bechgyn yn arw, gydag ambell un yn ennill marciau dychrynlyd o sâl ar eu cerddi ac yna'n rhoi atebion teilwng iawn ar eu nofel, yn amlwg am eu bod wedi mwynhau'r nofel." Roedd yr atebion ar *Yn Y Gwaed* a *Y Stafell Ddirgel* yn arbennig gan mai disgyblion y setiau uchaf oedd wedi eu hastudio.

- (a) Portread. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ddewis eu cymeriadau'n ofalus. Roedd y cwestiwn yn gofyn am gymeriadau cyferbyniol, ond aeth nifer i drafferthion wrth ddewis is gymeriadau yn hytrach na dewis y prif gymeriadau. Gwelwyd enghreifftiau o ddewis cymeriadau megis Quannah (*I Ble'r Aeth Haul y Bore?*) a Fo (*Yn y Gwaed*). Yn amlwg prin oedd y wybodaeth oedd i gefnogi unrhyw sylwad.

Roedd y goreuon yn gallu trafod nodweddion y cymeriadau gan gefnogi gyda thystiolaeth o'r nofel a dyfynnu'n helaeth a phwrpasol i ategu eu sylwadau. Yn gyffredinol mae angen hyfforddi'r disgyblion sut i fynd at ysgrifennu portread o gymeriad mewn nofel. Gwnaed hyn yn llwyddiannus yn y gorffennol, o dan yr hen fanyleb. Roedd nifer heb ddeall y gair 'portread' - mae angen nodi nodweddion am bersonoliaeth y cymeriadau, neu ansoddeiriau i ddisgrifio eu personoliaeth ac yna gefnogi gyda thystiolaeth o'r nofel. Roedd y mwyafrif yn gwybod cynnwys eu nofelau'n dda iawn, ond tuedd y mwyafrif oedd adrodd stori'r cymeriadau a rhestru digwyddiadau yn hytrach na sôn am nodweddion personoliaeth y cymeriadau.

- (b) Gwelwyd gwelliant mawr yn safon atebion y cwestiwn hwn eleni. Efallai i'r geiriau tensiwn / tyndra fod o gymorth i rai. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda iawn ac wedi dadansoddi bwriad yr awdur yn defnyddio arddull yn drylwyr. Ond, pery rhai ymgeiswyr i roi crynodeb o'r dyfyniad heb gyfeirio at naws, awryglych nac arddull.

- (c) Llwyddodd yr ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu i arddangos gwybodaeth dda iawn am y nofelau, ond dylid darllen y cwestiwn yn ofalus gan fod y cwestiwn erbyn hyn yn ffocysu ar ymateb cymeriad i ddigwyddiad penodol yn ystod y nofel. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu am ddigwyddiadau ar ddiwedd y nofelau er enghraifft *Mared* yn feichiog yn *Yn y Gwaed*, Rowland yn penderfynu ymfudo i'r Amerig, Einir yn trefnu ei phriodas â Meredydd ac ymateb Manuelito i ddigwyddiadau megis llosgi'r perllannau a dosbarthu'r blancedi. Dylid nodi hefyd mai cwestiwn empathi yw hwn - a dylid felly ystyried ymateb personol y cymeriadau i ddigwyddiadau penodol yn y nofel.

Cyffredinol

Eleni eto, daeth yn amlycach nad oedd papur haen uwch yn gwbl addas i nifer o'r ymgeiswyr. Derbyniwyd papurau lle nad oedd y disgybl wedi ymgeisio i ateb un cwestiwn, a gwelwyd sgrïptiau lle'r oedd y marciau yn isel. Byddai sefyll arholiad ysgrifenedig haen sylfaenol yn llawer mwy addas i'r disgyblion yma. Mae'n rhaid ei fod yn dorcalonnus i ymgeiswyr sefyll arholiad dwy awr gan fethu ateb un cwestiwn.

Erbyn hyn mae'r bandiau marciau a ddefnyddir yn y cynlluniau marcio yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i safon iaith ymgeiswyr. Mae safon iaith Adran A yn well yn gyffredinol nag Adran B. Dylid rhoi sylw i safon iaith disgyblion wrth baratoi atebion ar y nofel.

Diolchaf i'r arholwyr am eu gwaith trwyadl yn sicrhau tegwch a chysondeb wrth farcio'r papurau arholiad ac yn arbennig i Elizabeth John a Meleri Jones am fod yn arweinwyr tîm ac am y cydweithio agos a gofalus fu rhyngom.

Uned 2 – Arholiad Llafar – Llunyddiaeth

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr arholiadau llafar sylfaenol ac uwch yn ystod Ebrill 2013. Roedd gwahaniaeth sylfaenol eleni yn y modd y dewiswyd yr ymgeiswyr ar gyfer y sampl. Roedd angen bwydo'r marciau i mewn i'r wefan, yna roedd y cyfrifiadur yn dewis pa sampl oedd angen ei anfon. Gweithiodd yr arbrawf yn dda, gyda'r rhan fwyaf o'r canolfannau yn anfon y sampl at yr arholwyr yn ddidrafferth. Atgoffir y canolfannau'n garedig nad oes hawl cyflwyno'r arholiad llafar ar dapiau casét bellach. CD yw'r unig fformat sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd.

Gweinyddu

Mae canran uchel o'r ysgolion i'w canmol yn fawr iawn am eu gwaith gweinyddu. Mae rhai yn dewis anfon pob sampl ar CD ar wahân, ac eraill yn anfon nifer ar yr un CD. Nid oes llawer o wahaniaeth gan yr arholwyr y naill ffordd neu'r llall, ond yr hyn sy'n bwysig yw bod y CDs wedi cael eu labelu'n glir yn unol â'r canllawiau. Yn ogystal â hyn, prin oedd y canolfannau a oedd wedi anfon gwaith aneglur i mewn. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i'w clywed yn glir. Unwaith eto, apelir ar i'r canolfannau sicrhau bod yr offer a'r amodau recordio'n addas. Wrth gwrs bod tarfu o dro i dro e.e. cloch ysgol, ond mae'r arholwyr yn deall hynny. Roedd y mwyafrif o ganolfannau wedi llwyddo i gofnodi'r marciau'n gywir ar y wefan ddiogel, ond roedd rhai enghreifftiau o farciau gwahanol ar y wefan ac ar y ffurflenni. Atgoffir y canolfannau hefyd fod angen anfon y ffurflenni at yr arholwyr yn ogystal â throsglwyddo'r marciau ar-lein. Ar y ffurflenni y gwelir sut y rhennir y marciau rhwng y ddau amcan asesu. Mae gweld y marciau fel hyn yn gymorth mawr i'r safonwyr.

Trafodaeth

Unwaith eto eleni, roedd yna enghreifftiau o drafod gwych ac aeddfed. Mae'n glir fod yna waith ardderchog yn cael ei wneud yn y canolfannau i baratoi'r myfyrwyr tuag at yr arholiad, ac roedd canran uchel iawn o'r myfyrwyr yn amlwg wedi cyrraedd eu potensial. Unwaith eto, roedd y goreuon yn llwyddo i drafod y cwestiwn yn fedrus gan ddefnyddio termau llunyddiaeth, a chyfeirio at y testun print yn gwbl naturiol o fewn y sgwrs. Serch hynny, mae angen i rai canolfannau ystyried y pwyntiau allweddol yma:

Dylai'r ymgeiswyr gofio cadw at y cwestiwn. Roedd rhai ar yr haen uwch eleni wedi colli ffordd, drwy ganolfwyntio ar y cyferbyniadau rhwng y ffilm a'r testun print, yn hytrach na'r cyferbyniadau o fewn y ffilm. Mae cyfeirio at y testun print yn bwysig, ond dylid cofio mai trafod y ffilm a wneir yn bennaf.

Dylai'r ymgeiswyr drafod heb ymyrraeth athro/ athrawes pan fo'n bosib. Os oes ei angen, dylai ymyrraeth ddod er mwyn denu'r ymgeiswyr yn ôl at y cwestiwn neu eu hannog i drafod ymhellach. Dylai athro/athrawes osgoi bod yn rhan allweddol o'r drafodaeth.

Dylid cadw at yr amser penodol. 'Hyd at 20 munud' yw'r gofyniad. Mae mynd lawer dros 20 munud yn rhywbeth i'w osgoi, ac mae o dan 15 munud yn un elfen yn yr ystyriaeth o ostwng marciau.

CLO

Diolch yn fawr unwaith eto i'r holl athrawon a chanolfannau am eu gwaith manwl. Mae yna waith da'n cael ei wneud yn flynyddol, a'r safon yn cael ei gadw. Pob hwyl wrth baratoi tuag at arholiadau'r uned hon y flwyddyn nesaf.

Uned 3 Tasgau o Dan Reolaeth

Unwaith eto eleni, rhaid cydnabod a diolch am yr holl waith paratoi wrth gyflwyno'r gwaith i safonwyr. Mae ambell ganolfan yn mynd i drafferth mawr i lunio cloriau lliwgar a deniadol ar gyfer y tasgau – ac yn dangos parch mawr at y gwaith a wnaed gan y disgyblion. Diolch yn fawr.

Y Dasg Ryddiaith

Dewiswyd straeon addas ar gyfer gallu'r disgyblion a phrin oedd yr ymgeiswyr oedd wedi dewis peidio defnyddio taflen gynllunio - boed honno yn un a luniwyd gan y ganolfan ei hun, neu'r un sydd ar y wefan CBAC - Canllawiau Athrawon. Rhoddwyd rhyddid gan ambell ganolfan i ymgeiswyr lunio eu taflenni cynllunio eu hunain. Os na ddefnyddiwyd nodiadau gan yr ymgeiswyr, byddai nodyn i egluro hyn yn gymorth i safonwyr wrth edrych ar y gwaith. Unwaith eto eleni, gwelwyd ambell ddisgybl yn gwthio ffiniau ac yn defnyddio dwy ochr y daflen ac yn ysgrifennu'n fân iawn. Roedd rhai ymgeiswyr cydwybodol am wneud eu gorau, ond nodir yn y canllawiau "*Caniateir pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol i gyflawni'r dasg.*" Pwysleisir mai cymorth yw'r daflen wrth ysgrifennu'r traethawd - pwyntiau byr i brocio'r cof yn unig. Gall nodiadau ambell ddisgybl fod yn faen tramgwydd i ddisgybl wrth gwblhau'r dasg o fewn dwy awr. Nodir hefyd gan y safonwyr mai 2 awr yw'r amser a ganiateir o dan y dasg o dan amodau uchel hon. Gwelwyd enghreifftiau o dasgau oedd yn 18-20 tudalen. Mewn dwy awr 8-10 tudalen a ddisgwylir i ddisgybl ei gwblhau mewn traethawd ac mae'r **sgil o fod yn gryno yn rhywbeth y dylid ei hyfforddi a'i feithrin yn ystod y ddwy flynedd o baratoi ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig.**

Roedd llawer o ganolfannau wedi hyfforddi'r ymgeiswyr i agor y gwaith â diffiniad o beth yw nodweddion ffurf stori fer draddodiadol. Ond rhaid gochel nad yw hyn ar draul y drafodaeth ar y straeon byrion. Roedd y goreuon yn cymhwyso gwybodaeth am ffurf i drafod y straeon

dan sylw. Arfer dda arall yw cyflwyno'n fyr y thema a drafodwyd - gan ddiffinio beth yw *Unigrwydd* a *Chariad Chasineb*. Mae creu paragraff agoriadol cryf cyn bwysiced â chreu paragraff clo i roi undod i'r gwaith. Roedd ôl gofal wrth lunio geiriad y tasgau ac yn dilyn gofynion disgrifiadau'r bandiau marciau. Nododd un safonwr nad oedd y dasg "Pa stori ydych chi'n ei hoffi fwyaf" yn galluogi'r ymgeiswyr i ymdrin â themâu, dadansoddi plot na'r cymeriadau yn ddigon manwl gan eu bod yn treulio'r amser yn mynegi barn ar y straeon.

Roedd llawer mwy o gyfodod a chymharu'r ddwy stori gydol y traethawd yn digwydd bellach. O ran trafodaeth AA2 hefyd, llawer gwell yw trafod y nodweddion arddull yn naturiol yn ystod y traethawd. Gwelwyd enghreifftiau o ganolfannau yn trin y ddau amcan asesu ar wahân ar draws yr ystod gallu. Byddai disgwyl i ymgeiswyr ar frig yr ystod allu plethu sylwadau ar ffurf ac arddull yng nghorff y gwaith. Yn ôl un safonwr "Pleser oedd gweld mwy o egluro sut mae technegau arddull ac iaith yn cyflwyno thema a chymeriad yn hytrach na darganfod unrhyw drosiad neu gyffelybiaeth." Tuedda rhai ymgeiswyr i restru nifer o dechnegau arddull a dyfyniadau, gan anghofio sôn am yr effaith yn gyfan gwbl neu yn arwynebol iawn. Unwaith eto, gwelwyd sylwadau arwynebol a gwag yn y traethodau, "creu llun ardderchog, llun yn y pen" yn hytrach na thrafod effeithiolrwydd. Gwelwyd enghraifft dda mewn un ganolfan am gofio'r tair E "Enwi, enghreifftio, esbonio." Prin oedd yr ymgeiswyr na soniodd am arddull o gwbl, ond lle roedd hynny wedi digwydd, roedd athrawon yn gyndyn o roi marc o '0' am AA2 er mai hyn oedd yn addas.

Y Dasg Ddrama

Darllenwyd tasgau yn seiliedig ar amrywiaeth o ddramâu o glasuron Saunders Lewis a Gwenlyn Parry i destunau mwy cyfoes megis *Arkies*, addasiadau o nofelau megis *Hi yw Fy Ffrind* yn y gyfres *Codi'r Llenni*, a braf yw gweld dramâu newydd megis *Crash* oedd yn amlwg wedi apelio at yr ymgeiswyr mewn sawl canolfan. Rhaid derbyn bod *Siwan* a *Blodeuwedd* yn rhy heriol ar gyfer rhai ymgeiswyr pa bynnag fersiwn o'r ddrama a ddefnyddir. Nid yw'r testun yn rhan o fyd yr ymgeiswyr gwannaf.

Tasgau ysgrifennu ymson, llythyr neu ddyddiadur oedd y rhan fwyaf o'r gwaith a ddarllenwyd, ond braf hefyd yw gweld tasgau newydd a gwreiddiol yn cael eu gosod, er enghraifft bwletin newyddion ar *Y Tad a'r Mab*, cyfweiliad gyda chymeriad a hyd yn oed llythyr o ymddiheuriad gan Gronw Pebr - oedd yn dasg newydd, neu olygfa ychwanegol ar ddiwedd drama. Cofier, fodd bynnag, fod angen i'r tasgau hyn ddangos dealltwriaeth yr ymgeiswyr o ddigwyddiadau'r ddrama a'u bod yn medru mynd dan groen cymeriad a gweld ei ddatblygiad.

Arfer dda oedd cyfeirio at adegau gwahanol o'r ddrama er mwyn cael ymdriniaeth lawn o'r testun. Yn ogystal, mae creu ymateb mwy nag un cymeriad ar wahanol adegau yn rhoi gwell cyfle i'r ymgeiswyr fynd o dan groen y cymeriadau ac yn dangos cydadwaith. Rhoddir sylw manwl gan ganolfannau i gadw naws ac awyrgylch y testun gwreiddiol. Gall y rhai sy'n sicr eu hiaith efelychu iaith a chystrawen cymeriadau yn nramâu Saunders Lewis yn wych ond mae disgwyl i ymgeiswyr nad ydynt yn ieithyddol gryf wneud hynny yn faen tramgwydd iddynt.

Mae angen i rai wyllo'r ffurf – roedd naws ymsonol i rai dyddiaduron, ac i'r gwrthwyneb.

Cyffredinol

Rhaid i rai canolfannau gofio am y llinyn Sillafu, Atalnodi a Gramadeg sydd wedi ei wau i mewn i'r cynlluniau marcio ar draws y tri amcan asesu. Rhaid rhoi ystyriaeth i safon yr iaith wrth ddyfarnu marciau. Nid oedd anodi gramadegol yn digwydd o gwbl mewn ambell ganolfan, na sylwad ar ddiwedd y gwaith am y gwallau. Yn yr un modd yn arbennig gyda'r dasg ryddiaith roedd anodi manwl iawn yn profi dealltwriaeth o ofynion y bandiau marciau ac

yn dangos llwybr meddwl yr athrawon i'r safonwr. Yn yr un modd, mae sylwad ar ddiwedd y gwaith hefyd yn gymorth i safonwr ddeall sut y penderfynwyd ar y marc gan y ganolfan. Yn ôl un safonwr "Colled fawr i'r ymgeiswyr pan na fo athro/athrawes yn anodi'r gwaith."

Roedd ôl safoni ar y gwaith, ond dylai pob athro / athrawes fod yn gyfrifol am ail edrych ar waith yr ymgeiswyr yn dilyn cyfarfodydd safoni o fewn yr adran. Gwelwyd sawl enghraifft eleni o dasgau wedi eu safoni a newid marciau yn ystod cyfarfodydd adran, sydd i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, mewn ambell ganolfan gwelwyd nad oedd addasu pellach wedi digwydd gan athro / athrawes i waith yr ymgeiswyr yn ei grŵp dysgu yn sgil unrhyw newidiadau a wnaed mewn cyfarfod safoni. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd safoni ar draws grwpiau dysgu i'r ddwy dasg er mwyn sicrhau cysondeb yn yr asesu i ymgeiswyr yn y ganolfan.

Hoffwn ddiolch i adrannau am yr holl waith manwl a threfnus yn cwblhau'r gwaith ac i'r tîm o safonwyr am y gwaith manwl a thrylwyr yn sicrhau cysondeb a thegwch i ymgeiswyr TGAU Llennyddiaeth Gymraeg 2013.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk